



Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Ardal Caerhun a Threfriw

Gwerthusiad Adeiladau Addas i'r Pwrpas Crynodeb Gweithredol

Cynnwys

Penawdau yn ôl y prif adroddiad-

1.0 Cyflwyniad	3
2.0 Yr Ysgolion sy'n Bodoli yn Ardal Caerhun a Threfriw	4
3.0 Proffiliau Ysgolion sy'n Bodoli	5
4.0 Datblygu Dewis	10
5.0 Briff Dechreuol	11
6.0 Dull Gwerthuso Dewis	11
7.0 Datblygu Briff	11
8.0 Gwerthusiadau Dewis	11
9.0 Dadansoddiad Sgôr Matrics a Chanlyniadau Gwerthusiad	13
10.0 Argymhellion	15
11.0 Casgliad	16

1.0 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn cynnal adolygiad manwl o'i ysgolion cynradd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Cyhoeddwyd *'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy'* a'r *'Cynllun Gweithredu'* yn Hydref 2010; ac fe'u hadolygwyd a'u cytuno gan y Cabinet yn Nhachwedd 2011.

Cytunodd y Cabinet hefyd i:

- i) ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiad effaith llawn) ar y dewisiadau o fewn y Cynllun Gweithredu, a
- ii) Chynnal cyfarfodydd rhanddeiliaid gyda'r ardaloedd hynny a nodwyd ar gyfer *'adolygiad mewn dwy flynedd'*.

Casglwyd gwybodaeth allweddol, gan gynnwys asesïadau effaith ar iaith, cludiant, cydraddoldeb, cymuned ac adeiladau addas i'r pwrpas, i gyfeirio'r dadansoddiad mantais aml faen prawf.

Bydd cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol yn cael eu cynnal gyda phob ysgol o fewn ardal adolygiad dechreuol er mwyn cyflwyno'n fanylach y dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer pob ardal a chanlyniad y gwerthusiad dewis.

Oherwydd newidiadau i Raglen Ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru, cytunodd Conwy i oedi ac adolygu Cynllun Gweithredu Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd (CMYC) fel y cytunwyd yn flaenorol (Hydref 2010).

O ganlyniad i oedi ac adolygiad, cyflwynwyd a chymeradwywyd amserlen "Cynllun Gweithredu Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy" wedi'i diweddarau gan y Cabinet ar 8 Tachwedd 2011.

Arweiniodd hyn at alinio Cynllun Gweithredu CMYC a Rhaglen Amlinelliad Strategol yr Awdurdod a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 18 Tachwedd 2011 a chafodd ei gymeradwyo mewn egwyddor yn Rhagfyr 2011.

Wedi hynny, bydd y rhaglen arfaethedig yn cael ei herio gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno am achos busnes i Lywodraeth Cymru rhwng 2014 a 2020.

1.2 Gyrwyr Allweddol

Gan gymryd i ystyriaeth ddyheadau Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu nifer o yrwyr allweddol sy'n llunio briff ar gyfer pob ardal a datblygwyd y dewisiadau canlyniad i gyflawni nod y rhaglen:

- parhau i wella safonau addysgol
- sicrhau bod ein holl adeiladau'n 'addas i'r pwrpas'
- lleihau lleoedd gwag yn ein hysgolion i lefel derbynol
- sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad cydradd at adnoddau.

1.3 Anghenion Creiddiol

Mae Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif yn ymroddiad Un Gymru ac yn gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'n rhaglen tymor hir â buddsoddiad strategol mawr gyda'r nod o greu cenhedlaeth o ysgolion 21 ganrif yng Nghymru.

Bydd y rhaglen yn:

- cefnogi polisi "Un Gymru" mewn perthynas ag ysgolion
- gyrru gwelliannau mewn safonau addysgol trwy fuddsoddi mewn ysgolion
- alinio a thrawsnewid ôl 16 a buddsoddiad gwasanaeth cyhoeddus ehangach ac mae'n anelu at fod yn gydlynedig ar draws ffiniau gweinyddol a,
- chynllunio i greu amgylchedd o'r safon uchaf i athrawon addysgu ac i ddisgyblion ddysgu wedi'i gefnogi gan TGC, sydd o ansawdd uchel, wedi'i gynllunio ar gyfer cynaliadwy, wedi'i adeiladu o fewn amser, am bris rhesymol i'r trethdalwr ac wedi'i gynnal yn iawn yn ystod ei oes.

1.4 Anghenion Cefnogi

Wrth ddatblygu'r dewisiadau'n fanwl mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â chanllawiau cynlluniau statudol ac anstatudol sy'n berthnasol i ysgolion y sir gan gynnwys:

- Canllawiau bwletin cynllunio adeiladu presennol
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Rheoliadau Adeiladau Ysgol Cymru 1999
- Canllawiau Prifffordd Awdurdod Lleol
- Polisiâu Lleihau Carbon ac Ynni Conwy
- Dull Asesu Amgylcheddol BRE i Ysgolion
- Rheoliadau adeiladu presennol
- Deddf Cydraddoldeb 2010

2.3 2.0 Proffil Ardal Caerhun a Threfriw

Mae tair ysgol gynradd yn ardal Caerhun a Threfriw - Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw. Mae'r tair ysgol yn cael eu dosbarthu fel ysgolion cynradd cyfrwng y Gymraeg ac addysgir yr holl ddisgyblion Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae Ysgol Dolgarrog ac Ysgol Tal y Bont yn ward Caerhun; mae dalgylch Ysgol Dolgarrog i'r de o'r ward gan gynnwys pentref Dolgarrog a'r Parc Cenedlaethol amgylchynol. Mae dalgylch Ysgol Tal y Bont yn rhan ogleddol ward Caerhun ac yn cynnwys pentrefi Tal y Bont, Ty'n-y-groes, Rowen a Llanbedr-y-cennin. Lleolwyd Ysgol Trefriw yn ward Trefriw sy'n cynnwys Trefriw a'r wlad oddi amgylch.

Mae gan y ddwy ward ddosbarthiad trefol/gwledig o 'bentref, pentrefan a phreswylfeydd ynysig'.¹

Cyfanswm poblogaeth y ddwy ward yw 3,198, yn cynnwys canran ychydig yn uwch o bobl hyd at 65 oed na chyfartaledd cymedr Sir Gonwy; a phoblogaeth is o blant 0- 15 oed.² Poblogaeth dalgylch Ysgol Dolgarrog yw 433 gyda 444 o breswylfeydd o fewn milltir i'r ysgol. Mae 316 o breswylfeydd o fewn milltir i Ysgol Tal y Bont a phoblogaeth dalgylch o 1,294. I Ysgol Trefriw poblogaeth y dalgylch yw 824 gyda 385 o breswylfeydd o fewn milltir i'r ysgol.³

Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy presennol (2007 - 2022) yn dangos y bydd safleoedd tai yn cael eu datblygu yn ardal Caerhun a Threfriw, gyda'r bwriad yn ward Caerhun (yn cynnwys dalgylchoedd Ysgol Dolgarrog ac Ysgol Tal y Bont) ar gyfer 57 o dai eraill gyda'r potensial am 18 o ddisgyblion cynradd ychwanegol yn cael ei gysylltu â'r tai ychwanegol hyn. Yn ward a dalgylch Trefriw gellid darparu 17 o dai ychwanegol a allai ddarparu pum disgybl ychwanegol posibl. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau tai arfaethedig newydd a safleoedd gyda chaniatâd cynllunio cyfredol.

3.0 Proffiliau'r Ysgolion sy'n Bodoli

3.1 Disgrifiad Ysgol: Proffil yr Ysgol sy'n Bodoli – Ysgol Dolgarrog



Adeiladwyd yn 1934, a chynlluniwyd gan Westbury Lloyd Jones, y Pensaer Sirol, mae'r ysgol yn nodweddiadol o'r ysgolion "awyr agored" roedd Rowland

Lloyd Jones (ei dad) wedi'u datblygu yn 1911 yn seiliedig ar gynlluniau Almaenig arloesol yn 1904.

Mae'r ysgol wedi'i hadeiladu'n bennaf ar un llawr sy'n cynnwys mannau addysgu, a llawr cyntaf sydd ond yn addas i staff. Mae'r defnydd o'r llawr cyntaf yn gyfyng gan nad oes ond un modd o fynd yno, a dim lifft. Mae islawr mewn dau fan sy'n cael eu tan ddefnyddio. Y cyntaf yw'r hen ystafell cyfarpar gwresogi nad yw'n cael ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas a'r ail o faint dosbarth gyda mynediad uniongyrchol i'r prif fuarth, ond yn cael ei ddefnyddio fel storfa gyffredinol, a gellid ei throsi'n rhwydd ar gyfer defnydd mwy addas.

Adeilad dros dro yw'r cantîn a'r gegin yn dyddio o'r 1950au o adeiladwaith cwbl hen ffasiwn.

Mae Cynlluniau'r Gwasanaeth Rheoli Asedau'n cael eu hadolygu'n bresennol. Y sgôr cyffredinol blaenorol oedd Gradd B (gweithredol gyda mân anghenion cynnal hanfodol).

Mae canlyniadau dechreuol y SAMP diweddaraf yn dangos fod gan Ysgol Dolgarrog anghenion cynnal (oes gyfan) o C (Gwael yn dangos diffygion mawr ac nid yn gweithredu fel y bwriadwyd).

Mae gan yr ysgol yn ei ffurf bresennol:

- Anawsterau'n cydymffurfio â Deddf Adeiladau Ysgol 1999
- Nid yn cyfarfod agenda Ysgolion 21 Ganrif
- Nid yn cyfarfod Bwletin Adeiladu 99.
- Nid yn cyfarfod anghenion lleoedd gwag Llywodraeth Cymru.

Rhai o brif broblemau'r safle:

- Mae cantîn a chegin yr ysgol yn adeilad dros dro yn cynnwys asbestos yn dyddio o'r 1950au, gydag adeiladwaith cegin cwbl hen ffasiwn.
- Angen neuadd sydd o leiaf yn 140m².
- Angen mannau cefnogi ychwanegol.
- Cae chwaraeon annigonol
- Mannau gemau a pharthau annigonol
- Cydymffurfio gwael â Deddf Cydraddoldeb.
- Adnoddau hylendid a glanweithiol.
- Gwahaniad gwael rhwng disgyblion a'r cyhoedd
- Mynediad cerbydau a cherddwyr cyfyngedig.
- Nid yn addasadwy ar gyfer defnydd y trigolion
- Effeithlonrwydd ynni gwael
- Nid yn cydymffurfio â Bwletin Adeiladu mewn meysydd fel acwsteg a golau dydd.
- Safle cyfyng a rhy fychan.
- Anghenion cynnal helaeth.

Y nifer llawn amser o ddisgyblion a ragwelwyd yn 2017 yw 52. Byddwn yn caniatáu 10% ychwanegol wrth gefn i ddiogelu unrhyw newid rhwng nawr a hynny ac i ddarparu elfen o hyblygrwydd yn y dyfodol. Mae hyn yn darparu ffigwr o 58. Hefyd byddwn yn caniatáu maint disgybl ychwanegol ar gyfer y Cylch Meithrin a meithrinfa gan ddarparu maint o 67 plentyn.

Yn seiliedig ar y pum dosbarth presennol, mae gan yr ysgol bresennol faint tybiannol o 151 disgybl llawn amser, ond byddai angen peth ail fodelu, gan nad yw'r adnoddau cefnogi ddim yn ddigonol.

3.2 Disgrifiad Ysgol: Proffili yr Ysgol sy'n Bodoli - Ysgol Tal y Bont




Mae ymchwiliad dechreuol yn dangos y codwyd yr ysgol cyn 1875. Mae'r ysgol yn cynnwys y prif adeilad ysgol â'r tŷ ysgol ynghlwm.

Mae ymchwil yn ein harwain i feddwl i'r ysgol gael ei chynllunio gan bensaer eglwysig yn dilyn ethos yr Ysgol Genedlaethol

Anglicanaidd sy'n llai llym nag arddull yr Ysgolion Cenedlaethol Anghydfurfiol.

Lleolwyd yr ysgol ar safle'n darparu wyneb mawreddog. Er ei bod yn ddymunol, mae hi o anfantais i'r gofod chwarae tu allan.



Mae'r safle'n ddifrifol brin o'r arwynebedd chwarae angenrheidiol. Er mwyn cydymffurfio ag anghenion statudol Deddf Adeiladau Ysgol mae'r ysgol yn dibynnu ar ddefnyddio cae cyhoeddus. Ni ddangosodd yr ymchwiliadau dechreuol a waned fel rhan o'r adroddiad hwn fod cytundeb ffurfiol ynghylch defnyddio'r cae yn bodoli.

Mae Cynlluniau Rheoli Asedau'r Gwasanaeth (CRhAG) yn cael eu hadolygu'n bresennol. Y sgôr cyffredinol blaenorol oedd Gradd B (gweithredol gyda mân anghenion cynnal hanfodol).

Mae canlyniadau dechreuol CRhAG wedi'i ddiweddarau yn dangos bod gan Ysgol Tal y Bont anghenion cynnal (oes gyfan) o C (Gwael yn dangos diffygion mawr ac nid yn gweithredu fel y bwriadwyd).

Mae gan yr ysgol yn ei ffurf bresennol:

- Anhawster yn cydymffurfio â Deddf Adeiladau Ysgol 1999
- Nid yn cyfarfod agenda Ysgolion 21 Ganrif
- Nid yn cyfarfod Bwletin Adeiladu 99.
- Nid yn cyfarfod anghenion lleoedd gwag Llywodraeth Cymru.

Prif broblemau'r ysgol yw:

- Dim neuadd
- Mannau addysgu annigonol
- Mannau cefnogi ychwanegol annigonol.
- Dim cae chwarae.
- Mannau gemau a pharthau allanol annigonol.
- Cydymffurfio gwael â Deddf Cydraddoldeb.
- Adnoddau hylendid a glanweithdra hen ffasiwn
- Mynediad cyfyng i gerbydau
- Gwahanu'r cyhoedd a disgyblion yn wael
- Nid yn bosibl ei haddasu ar gyfer defnydd y trigolion.
- Effeithlonrwydd ynni gwael.
- Nid yn cydymffurfio â Bwletin Adeiladu mewn meysydd fel acwsteg a golau dydd.
- Safle cyfyng a rhy fychan.
- Anghenion cynnal mawr.
- Y gegyn yn hen

Y nifer o ddisgyblion llawn amser a ragwelir yn 2017 yw 23. Yn ychwanegol, rydym yn caniatáu 10% ychwanegol wrth gefn i ddiogelu unrhyw newidiadau rhwng nawr a hynny a hefyd yn darparu elfen o hyblygrwydd i'r dyfodol. Mae hyn yn darparu ffigwr o 26. Hefyd, rydym yn darparu lle ar gyfer y Cylch Meithrin a meithrin gan ddarparu maint llawn amser o 30.

Yn ei ffurf bresennol mae'r ysgol yn cynnwys tri dosbarth, dau ofod adnodd, meithrinfa /Cylch Meithrin ar y llawr cyntaf a neuadd fechan sydd wedi'i dynodi ar gyfer ciniawa. Mae gan yr ysgol faint tybiannol o 60 disgybl llawn amser, ond byddai'n rhaid ei hail fodelu gan nad yw'r adnoddau cefnogi yn ddigonol ar gyfer y maint dangosol.

3.3 Disgrifiad Ysgol: Proffil yr Ysgol sy'n Bodoli - Ysgol Trefriw



Adeiladwyd yr ysgol o ithfaen yn 1842 gyda ffenestri pren a tho llechi. Mae hen dy'r ysgol sydd ar y safle nawr yn cynnwys adnoddau staff ar y llawr cyntaf a meithrinfa ar y llawr isaf.

Nid yw ffurf yr adeilad wedi newid fawr ddim dros y blynyddoedd, gan ychwanegu at swyn yr adeilad.

Roedd y parwydydd symudol yn arloesol yn eu dydd gan y gellid addasu'r cynllun mewnol i amrywiol ffurfiau.

Un llawr sydd i brif adeilad yr ysgol, a thŷ'r ysgol ar ddau lawr.

Nid yw mynd i'r ail lawr ond yn addas i staff sy'n abl, ond mae'r toiledau meithrin yno.

Gan fod cryn newid lefel o un ochr i'r llall ar y safle, a'i bod yn hynod gyfyng mewn gofod, lleolwyd yr adeilad mewn cornel, i wneud y defnydd mwyaf o'r man chwarae allanol. Mae'r safle'n ddifrifol brin o'r arwyneb chwarae a argymhellwyd ac sydd ei angen, ac mae'r ysgol yn dibynnu ar gaeau cyhoeddus i'r dwyrain i gyflawni'r anghenraid hwn.

Mae Cynlluniau Rheoli Asedau'r Gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n bresennol. Y sgôr cyffredinol blaenorol oedd Gradd B (gweithredol gyda mân anghenion cynnal hanfodol).

Mae canlyniadau dechreuol CRhAG wedi'i ddiweddarau yn dangos fod gan Ysgol Trefriw anghenion cynnal (gwaith oes gyfan) o C (Gwael yn dangos diffygion mawr ac nid yn gweithredu fel y bwriadwyd).



Mae gan yr ysgol yn ei ffurf bresennol:

- Anawsterau'n cydymffurfio â Deddf Adeiladau Ysgol 1999
- Nid yn cyfarfod agenda Ysgolion 21 Ganrif
- Nid yn cyfarfod Bwletin Adeiladu 99.
- Nid yn cyfarfod anghenion lleoedd gwag Llywodraeth Cymru.

Rhai o brif broblemau'r safle:

- Dim neuadd
- Diffyg manau addysgu.
- Dim cae chwarae.

- Dim lle gemau allanol.
- Mynediad cerbydau a cherddwyr cyfyng.
- Cegin hen ffasiwn
- Effeithlonrwydd ynni gwael
- Nid yn cydymffurfio â Bwletin Adeiladu mewn meysydd fel acwsteg a golau dydd.
- Safle rhy fychan a chyfyng.
- Cydymffurfio gwael â Deddf Cydraddoldeb.
- Adnoddau hylendid a glanweithdra hen ffasiwn
- Gwahanu'r cyhoedd a disgyblion yn wael
- Nid yn bosibl ei haddasu ar gyfer defnydd y trigolion.
- Anghenion cynnal mawr.

Y nifer o ddisgyblion a ragwelir yn 2017 yw 26. Hefyd, rydym yn caniatáu 10% ychwanegol wrth gefn i ddiogelu unrhyw newidiadau rhwng nawr a hynny a hefyd darparu elfen o hyblygrwydd yn y dyfodol. Mae hyn yn darparu ffigwr o 29. Hefyd, rydym yn darparu lle ar gyfer y Cylch Meithrin a meithrin gan ddarparu maint llawn amser o 32.

Yn seiliedig ar y pum dosbarth presennol, mae gan yr ysgol bresennol faint tybiannol o 72 disgybl llawn amser, ond byddai'n rhaid gwneud peth ail fodelu gan nad yw'r adnoddau cefnogi yn ddigonol.

4.0 Datblygu Dewis

Dewisiadau a Ystyriwyd

Yn ystod astudiaethau Rhaglen Foderneiddio nododd Gwasanaethau Addysg y strwythurau isod ar gyfer ei ysgolion i ddarparu addysg yn y dyfodol yng Nghonwy.

1. Ysgol gynradd ardal ar un safle – cyfuno'r tair ysgol i lunio ysgol gynradd ardal ar un safle gydag un pennaeth ac un corff llywodraethol.
2. Ysgol ardal ar y safleoedd sy'n bodoli - un ysgol ardal ar dri safle yn gwasanaethu'r ardaloedd hynny o dan un pennaeth ac un corff llywodraethol.
3. Cynnal yr ysgolion presennol - tair ysgol ar dri safle yn gwasanaethu'r ardaloedd hynny o dan lywodraeth tri phennaeth a thri chorff llywodraethol.

Y tri dewis strategol yw:

- Dewis 1– Cael ei yrru gan y gyrrwyr – ysgol ardal ar safle Dolgarrog.
- Dewis 2- Ysgol ardal ar y tri safle sy'n bodoli.
- Dewis 3- Cynnal yr ysgolion presennol ar y tri safle sy'n bodoli.

Mae Dewis 2 a 3 yr un fath o safbwynt dadansoddiad adeiladau addas i'r pwrpas, gan mai'r trefniadau llywodraethu sy'n wahanol ac nid strwythur yr ysgolion.

Y Broses Gwerthuso - Matrics Gwerthuso

Unwaith mae cynlluniau wedi'u paratoi byddant yn cael eu gwerthuso trwy'r Matrics Gwerthuso.

Er mwyn cymharu'r dewisiadau datblygodd yr Awdurdod fatrics. Diffiniodd y matrics hwn 39 o feysydd gwerthuso eang er mwyn sgorio'r dewisiadau mewn ffyrdd y gellir eu cymharu.

Sgoriwyd pob dewis yn erbyn pob maen prawf gan ddefnyddio gwerthoedd rhwng 1 a 5 i ddarparu dadansoddiad safle, cynllunio a thechnegol manwl.

Mae'r matrices yn cynnwys adrannau ar feini prawf gwerthuso'r canlynol:

- Cydymffurfio â rheoliadau ysgol
- Effeithlonrwydd ynni a maint gwasanaethau
- Arwyneb safle ac anghenion DGA
- Prynu safle
- Cydymffurfio â Bwletin Adeiladu
- Problemau cynllunio
- Perygl llifogydd a llygru'r ddaear
- Maint y safle
- Cymhlethdod Gwedd
- Cydymffurfio â BREEAM
- Hyblygrwydd a helaethu yn y dyfodol

5.0 Briff Dechreuol

- Amherthnasol i'r crynodeb gweithredol.

6.0 Dull Gwerthuso Dewis

Nod y gwerthusiad hwn yw darparu tystiolaeth gadarn i gefnogi Strategaeth Moderneiddio ac ymgynghoriad cyhoeddus parhaus.

Mae gan y Gwerthusiad Dewis nifer o gydrannau sydd gyda'i gilydd yn darparu adolygiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd pob dewis ac yn cynnwys:

- Matrics sgorio
- Gwerthusiad ariannol
- Canlyniad gwerth net presennol

Cyhoeddwyd y sgoriau matrics a data ariannol i Wasanaethau Addysg ar ôl eu gorffen ar gyfer eu cynnwys mewn dadansoddiad mantais sawl maen prawf a oedd hefyd yn cynnwys manteision â'n ariannol a oedd yn cael eu priodoli i bob dewis.

7.0 Briff Datblygu

- Amherthnasol i'r crynodeb gweithredol.

8.0 Gwerthusiad Dewis

Dewisiadau Rhestr Hir i Ysgol Ardal Caerhun a Threfriw

Dewis 1 – Ysgol Ardal Caerhun a Threfriw ar un Safle

1 Adeiladu Ysgol Ardal Newydd Caerhun a Threfriw ar Safle Ysgol Dolgarrog

Casgliad cymhlethdod yr anghenion oedd pum dewis wedi'u datblygu, gan ddod i'r casgliad a gyhoeddwyd yn Newis 1. Mae Dewis 1 yn darparu darpariaeth 21 Ganrif sy'n canolbwyntio ar addysg fel y prif beth ac y gellir ei ddefnyddio hefyd gan drigolion yr ardal a fydd yn cynnwys neuadd y gall y trigolion ei ddefnyddio'n annibynnol a

darpariaeth blynyddoedd cynnar ar ben ei hun. Mae'r dewis terfynol yn cael ei adnabod fel **Dewis 1A.**

2 Adeiladu Ysgol Ardal Caerhun a Threfriw Newydd ar Safle Ysgol Tal y Bont

Trwy adolygu cynllun y llawr fe ddaeth y dewis hwn yn bosibilrwydd o fewn y rhestr hir. Canlyniad cymhlethdod yr anghenion oedd chwe dewis a ddatblygwyd, gan ddod i ben yn y dewis a gyhoeddwyd. Mae'r dewis yn darparu darpariaeth 21 Ganrif sy'n canolbwyntio ar addysg fel y prif beth y gellir ei gyflwyno ac y gall y trigolion hefyd ei ddefnyddio a bydd yn cynnwys neuadd y gall trigolion fynd iddi'n annibynnol a darpariaeth blynyddoedd cynnar ar wahân. Mae'r dewis terfynol yn cael ei adnabod fel **Dewis 1B.**

3 Ailfodelu Ysgol Dolgarrog i greu Ysgol Ardal Caerhun a Threfriw

Wrth adolygu'r rhestr hir, daeth yn amlwg bod y dewis hwn yn ymarferol. Datblygwyd y dewis llwyddiannus trwy'r pum cam i ddarparu dewis a oedd yn defnyddio'r ysgol bresennol fel ysgol ardal. Cyfeirir at y dewis hwn fel **Dewis 1C.**

Dewisiadau Aflwyddiannus-

1. Adeiladu ysgol newydd ar safle Ysgol Trefriw – (cynhaliwyd dau ddewis).
2. Ail fodelu Ysgol Tal y Bont i greu ysgol ardal – (cynhaliwyd pum dewis).
3. Ail fodelu Ysgol Trefriw i greu ysgol ardal – (cynhaliwyd dau ddewis).

Dewis 2 - Ysgol Ardal Caerhun a Threfriw ar y tri safle presennol.

4 Ail fodelu Safle Ysgol Dolgarrog

Cynhyrchodd y cynllun wyth dewis, a ddaeth i ben gydag ysgol gyda lle dros ben a'i ddefnydd angen ei ddiffinio. Roedd llawer o'r dewisiadau hyn yn ymwneud â phenderfynu pa ddefnydd a wneid o le sbâr yn y dyfodol. Ystyriwyd yn anymarferol yn wreiddiol, ond datblygwyd y dewis hwn yn llwyddiannus i greu Ysgol 21 Ganrif, a chyfeirir ato fel **Dewis 2A.**

5 Ail fodelu Safle Ysgol Tal y Bont.

Ystyriwyd yn anymarferol yn wreiddiol, a ddiweddodd mewn 13 dewis, wrth i friffiau newid a'r ysgol esblygu'n Ysgol 21 Ganrif. Ystyriwyd y dewis hwn yn ymarferol fel rhan o ysgol ardal a chyfeiriwyd ato fel **Dewis 2B.**

6 Ail fodelu Safle Ysgol Trefriw

Ystyriwyd cynlluniau Dewis 2 yn wreiddiol fel rhai na fyddent yn cyflawni statws 21 Ganrif, ac ystyriwyd Ysgol Trefriw yr un lleiaf tebygol. Datblygwyd saith dewis i Ysgol Trefriw gan ddatblygu strategaeth gymunedol a datblygu'n Ysgol 21 Ganrif. Cyfeirir ato fel **Dewis 2C.**

Dewisiadau Aflwyddiannus

4. Adeiladu Ysgol Dolgarrog newydd
5. Adeiladu Ysgol Tal y Bont newydd
6. Adeiladu Ysgol Trefriw newydd

Dewis 3 – Cynnal yr Ysgolion Presennol

7 Ail fodelu Safle Ysgol Dolgarrog

Cynhyrchodd y cynllun wyth dewis, a ddiweddodd gydag ysgol gyda lle dros ben gyda'i ddefnydd i gael ei ddiffinio. Roedd llawer o'r dewisiadau hyn yn ymwneud â phenderfynu pa ddefnyddio a wneid o le sbâr yn y dyfodol. Ystyriwyd yn anymarferol yn wreiddiol, ond datblygwyd y dewis hwn yn llwyddiannus i Ysgol 21 Ganrif, a chyfeirir ato fel **Dewis 2A.**

8 Ail fodelu Safle Ysgol Tal y Bont

Ystyriwyd yn anymarferol yn wreiddiol, a diweddodd mewn 13 dewis, wrth i friffiau newid a'r ysgol esblygu'n Ysgol 21 Ganrif. Ystyriwyd y dewis hwn yn ymarferol fel rhan o ysgol ardal a chyfeirir ato fel **Dewis 2B**.

9 Ail fodelu Ysgol Trefriw

Ystyriwyd cynlluniau Dewis 2 yn wreiddiol fel rhai na fyddent yn cyflawni statws 21 Ganrif, ac ystyriwyd Ysgol Trefriw yr un lleiaf tebygol. Datblygwyd saith dewis i Ysgol Trefriw gan ddatblygu strategaeth gymunedol a datblygu'n Ysgol 21 Ganrif. Cyfeirir ato fel **Dewis 2C**.

Dewisiadau Aflwyddiannus

7. Adeiladu Ysgol Dolgarrog newydd
8. Adeiladu Ysgol Tal y Bont newydd
9. Adeiladu Ysgol Trefriw newydd

9.0 Canlyniadau Sgoriau Matrics Dadansoddiad a Gwerthuso

Matrics Ysgolion 21 Ganrif

Wedi'r broses dylunio, gwerthuswyd y cynlluniau i weld a oeddent yn cydymffurfio â gweledigaeth Ysgolion 21 Ganrif Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy trwy fatrics dau gam. Mae'r broses wedi lleihau'r rhestr hir o ddewisiadau i lunio rhestr fer, ac yn gorffen gyda chynllun a argymhellir.

Mae'r dewisiadau yn cael eu sgorio allan o 155 posibl, gydag uchafswm terfynau wedi'i osod ar 31. Mae'r sgôr wedyn yn cael ei nodi fel canran. Yr isafswm sgôr cyraeddadwy ar gyfer y cynllun yw 31 yn cyfateb i 20%.

Gan fod isafswm terfynau wedi'u gosod yn y matrics ail gam, mae'r cynigion yn cael eu hadolygu a'u haddasu ar gyfer cydymffurfio (os yn gyraeddadwy) cyn yr ail gam o werthuso.

Rydym yn ystyried cynigion sydd â hawl i fatrics ail gam fel Ysgolion 21 Ganrif. Dyhead Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw i'r cynnig llwyddiannus sgorio 80% neu fwy, sy'n llunio sgôr gwerthuso o 5.

Disgwyliad Ansawdd

Datganiad Ansawdd	Sgôr canran	Ansawdd Sgôr Gwerthuso ysgol 21 Ganrif
Dyhead Conwy am Ysgol 21 Ganrif	80 – 100%	5
Lefel derbyniol – peth cyfaddawdu.	60 – 79%	4
Ai dyma'r ateb gorau i Ysgol 21 Ganrif?	20 – 59%	1-3

Safle Matrics

Safle	Dewis	Math	Safle	Sgôr Canran	Sgôr Gwerthuso
1	1a	Ysgol ardal newydd	Dolgarrog	86.45%	5
2	1b	Ysgol ardal newydd	Tal y Bont	83.87%	5
3	1c	Ailfodelu ysgol fel ysgol ardal	Dolgarrog	78.06%	4
4	2	Ysgol ardal ar 3 safle	3 safle	75.05% canolig Amrediad 72.9% - 77.42%	4 canolig
5	3	Ysgolion annibynnol	3 safle	75.05% canolig Amrediad 72.9% - 77.42%	4 canolig

Cyfanswm Cost Datblygu

Mae'r rhestr ddisgwyl gwaith cynnal yr ysgolion sy'n bodoli ar ôl ychwanegu'r ar gostau yn darparu amcan o £2,473,709.82. Ni fyddai gwario'r arian hwn ond yn cadw'r cydbwysedd ac ni fyddai'n trin agenda Ysgolion 21 Ganrif Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r tabl canlynol yn rhestr o gostau cyfalaf dechreuol sydd ei angen i ddatblygu'r cynnig.

Safle	Dewis	Math	Safle	Cyfanswm cost datblygu	Gwahaniaeth Cost	Cost i CBSC wedi 50% arian cyfatebol	Sgôr gwerthusiad matrics
1	1c	Ail fodelu ysgol fel ysgol ardal	Dolgarrog	3,062,327	0	£1,531,164	4
2	1b	Ysgol ardal newydd	Tal Y Bont	3,701,655	£639,328	£1,850,828	5
3	2	Ysgol ardal ar 3 safle.	3 safle	4,192,360	£1,130,033	£2,096,180	4
4	3	Ysgolion ar wahân	3 safle	4,192,360	£1,130,033	£2,096,180	4
5	1a	Ysgol ardal newydd	Dolgarrog	4,251,172	£1,188,845	£2,125,586	5

Dadansoddiad Gwerth Net Presennol (GNP)

Gwerthoedd Net Presennol yw costau oes wedi'u cyfrifo o gyfanswm cost y dewisiadau dros gyfnod o 30 mlynedd. Rhestrir y prif eitemau isod:

- o Cost cyfalaf adeilad ac offer
- o Costau rhedeg blynyddol
- o Cronfa atgyweirio a chynnal blynyddol.

Dangosir gwerth Net presennol isod:

Safle	Dewis	Math	Safle	GNP	Gwahaniaeth Cost dros 30 mlynedd	Sgôr gwerthusiad matrices
1	1c	Ysgol wedi'i hail fodelu fel ysgol ardal	Dolgarrog	£13,210,340	0	4
2	1b	Ysgol ardal newydd	Tal y Bont	£13,942,290	£731,950	5
3	1a	Ysgol ardal newydd	Dolgarrog	£14,489,120	£1,278,780	5
4	2	Ysgol ardal ar 3 safle	3 safle	£15,072,290	£1,861,950	4 cyfartalog
5	3	Ysgolion ar wahân	3 safle	£16,895,780	£3,685,440	4 cyfartalog

Nid yw ffigyrau GNP yn cyfeirio at y Matrics. Mae wedi'u seilio'n llwyr ar gyfanswm cost y cynllun dros 30 mlynedd.

Mae'r ffigyrau GNP uchod ar gyfer pob dewis yn seiliedig ar ariannu 50:50 rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Dewis 1a ac 1b sy'n cyfarfod Ysgolion 21 Ganrif Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy orau. Mae gan y rhain wahaniaeth GNP o £546,830, ond sylwer nad yw cost prynu tir cymunedol wedi'i gynnwys. Bydd cost prynu tir yn cynyddu dewis GNP 1b.

10.0 Argymhellion

Nodwyd pum prif Ddewis fel Ysgolion 21 Ganrif yn ystod y broses ymgynghori. Datblygwyd a dadansoddwyd hwy ymhellach, gyda'r nod o ganfod pa ddewis a fyddai'n trin y briff gwreiddiol orau wrth ddarparu safle ac adeiladau addas i'r pwrpas gyda maint yn cyfarfod nifer y disgyblion a ragamcanwyd hyd 2017.

Blaenoriaethwyd yn ôl matrices sgorio-

1. Adeiladu Ysgol Ardal newydd ar safle Dolgarrog
2. Adeiladu Ysgol Ardal newydd ar safle Tal y Bont
3. Ail Fodelu Ysgol Dolgarrog fel Ysgol Ardal
4. Ail Fodelu'r ysgolion sy'n bodoli i greu ysgol ardal ar dri safle
5. Ail Fodelu'r ysgolion sy'n bodoli i gadw'r cydbwysedd

Er bod y pum dewis yn cyfarfod safonau Ysgolion 21 Ganrif Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, **dim ond dau ddewis sy'n cyfarfod disgwyliadau'r Awdurdod.**

1. Adeiladu Ysgol Ardal newydd ar safle Dolgarrog
2. Adeiladu Ysgol Ardal newydd ar safle Tal y Bont

O ganlyniad, mae'r gwerthusiad -

- Yn cytuno â'r cyhoeddiad blaenorol ("Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy") y byddai ysgol ardal newydd yn Nolgarrrog yn cyfarfod CMYC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy orau ar gyfer Ardal Caerhun a Threfriw.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu rhestr fer o ddewisiadau gwerthusiadau dewis Ysgolion 21 Ganrif i'w hystyried yn y broses ymgynghori. Mae'r **canfyddiadau'n seiliedig ar werthusiadau circa RIBA Cam C** o safbwynt pensaernïol. Ar y cam hwn, ni fu ymgynghori gydag ymgynghorwyr arbenigol, addysgwyr, grwpiau rhanddeiliad na defnyddwyr terfynol. **Nid yw'r ysgolion cynradd presennol yn Ardal Caerhun a Threfriw, yn cyfarfod yr agenda Ysgolion 21 Ganrif, ac mae gwaith cynnal a amcanwyd yn £2,473,709.82 angen ei wneud.**

Tybiwyd yn wreiddiol mai hwn oedd yr unig gynllun fyddai â hawl i arian cyfatebol. O'i werthuso yn ôl terfynau Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, **dyma'r cynllun mwyaf cadarn** gan gadarnhau'r ***“cynllun yn cael ei yrru gan y gyrrwyr”*** gwreiddiol fel yr un mwyaf priodol.



Dewis 1b- Ysgol Ardal newydd ar Safle Ysgol Tal y Bont

Gyda'r dewis hwn mae gwendidau mewn perthynas â'r safle a pherchnogaeth y tir. Mae cyfyngder y safle yn arwain at gyfaddawdu ffurf a threfniant. Os na allwn brynu neu gael cytundeb tymor hir ni fydd y safle'n cydymffurfio â Deddf Adeiladau Ysgol. Gallai menter ar y cyd â'r gymuned o bosib yn gwneud hwn y cynllun cryfaf gan y byddai'r arwyneb mwyaf o dir yn caniatáu mwy o hyblygrwydd, gan gynnwys y posibilrwydd o well adnoddau lleol. Byddai angen trin y posibilrwydd hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori.



Dewis 1c- Ail fodel Ysgol Dolgarrog fel ysgol Ardal

Ail fodelu'r ysgol sy'n bodoli fel yr ysgol ardal yw'r rhataf yn nhermau cost y cynllun a GNP. Fodd bynnag, oherwydd natur yr ysgol bresennol ni fydd yr adeilad presennol o'r un safon cynllunio ag adeiladu ysgol newydd. Mae hwn yn ateb sy'n cael ei arwain yn llwyr gan gyllid.



Dewis 2- Ail fodelu'r tair ysgol sy'n bodoli fel Ysgol Ardal


Trwy werthusiad dewis daeth y cynnig hwn i gydymffurfio ag anghenion Ysgolion 21 Garrif, felly â hawl i arian cyfatebol. Fodd bynnag, mae'n **ddrud** a theimlwyd ei fod yr **ateb gwanaf** yn nhermau dyheadau Ysgol 21 Garrif. Mae'r dewis hwn yn caniatáu parhad bodolaeth ysgolion lleol, trwy ysgol ardal wedi'i rheoli dros dri safle.



2a Ail Fodelu Dolgarrog




2b Ail Fodelu Tal y Bont



2c Ail Fodelu Trefriw

Dewis 3 – Ail fodelu'r tair ysgol sy'n bodoli fel Ysgolion ar Wahân

Trwy werthusiad dewis daeth y cynnig hwn i gydymffurfio ag anghenion Ysgolion 21 Garrif, felly â hawl i arian cyfatebol. Fodd bynnag, mae'n **ddrud** a theimlwyd ei fod yr **ateb gwanaf** yn nhermau dyheadau Ysgol 21 Garrif. Mae'r dewis hwn yn caniatáu **parhad bodolaeth ysgolion lleol**, trwy ysgolion ardal. Mae'r dewis hwn yn cadw'r "cydbwysedd" trwy ddiweddarau adeiladau ac adnoddau.



3a Ail Fodelu Dolgarrog



3b Ail Fodelu Tal y Bont



3c Ail Fodelu Trefriw